

## Newyddion Diweddaraf Data Cymru – WSLC Hydref 2024

### Prosiectau a lansiwyd yn ddiweddar:

#### 1. *Dangosfwrdd cydraddoldebau*

Rydym wedi datblygu [dangosfwrdd 'Deall Cydraddoldebau'](#), sydd ar gael bellach ar ein gwefan. Cafodd y dangosfwrdd hwn ei ysbrydoli gan adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n defnyddio data i asesu cynnydd ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Nod y dangosfwrdd yw cefnogi cynghorau lleol yng Nghymru i ddeall i ba raddau y gall pawb ffynnu ar lefel leol. Mae'n dod â data cydraddoldeb, o ffynonellau amrywiol, at ei gilydd mewn un lle. Mae'n caniatáu i gynghorau lleol ddeall a chymharu cynrychiolaeth ar draws gwahanol nodweddion.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

#### 2. *Proffiliau perfformiad*

Rydym wedi datblygu cyfres o broffiliau perfformiad i helpu i gefnogi proses hunan-asesu cynghorau lleol. Nod y proffiliau yw cynnig adnodd ar gyfer cydweithwyr ym maes perfformiad corfforaethol a staff mewn gwasanaethau i'w helpu i ddeall eu perfformiad a sut mae hyn yn cymharu ag eraill. Byddant hefyd yn cynnig gwybodaeth werthfawr i helpu i hysbysu Aseidiadau Panel Cymheiriaid.

Cafodd y proffiliau eu rhannu â chydweithwyr perfformiad a gwelliant ar ddiwedd mis Mawrth. Erbyn hyn mae'r proffiliau ar gael o fewn cynghorau ledled Cymru trwy swyddogion arweiniol perfformiad. Bu'r adborth hyd yma yn gadarnhaol iawn.

Fel rhan o'u datblygiad, rydym wedi cynnwys rhywfaint o allu i adnabod cymdogion mwyaf cymaradwy cynghorau lleol ar sail amrediad o ddata demograffaid. Yna gall y proffiliau gael eu defnyddio i gymharu perfformiad rhwng cynghorau.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

#### 3. *Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol*

Yng Ngorffennaf 2024, aeth ein cynnig Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn fyw. Mae hyn yn cynnwys arolwg safonedig y gall cynghorau lleol ei gynnal ymhlith eu preswylwyr. Rydym wedyn yn trosglwyddo canlyniadau'r arolwg yn awtomatig i ddangosfwrdd lledaenu, yn glanhau'r data, ac yn lledaenu data crai a data a reolir o ran datgelu. Yn hollbwysig, trefnir bod data ar gael yn y dangosfwrdd hefyd at ddiben cymharu a meincnodi cenedlaethol.

Mae rhai arolygon eisoes wedi dechrau, ac mae gennym biblinell o gynghorau sy'n aros i'w lansio.

Mae'r prosiect hwn yn gyflawniad sylweddol i Data Cymru – datblygu arolwg preswylwyr cenedlaethol o fewn chwe mis i'r cynnig gwreiddiol a chyflenwi prosiect pwysig mewn partneriaeth â Thîm Gwella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Rydym yn paratoi astudiaeth achos i rannu gwersi'r prosiect cenedlaethol unigryw hwn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Sam Sullivan](#).

#### **4. Dangosfwrdd Comisiynydd y Gymraeg**

Rydym wedi cwblhau darn o waith yn ddiweddar ar ran Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi datblygu dangosfwrdd sy'n gadael i ddefnyddwyr gyrchu ystadegau'n rhwydd ynghylch siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021.

Gallwch ddefnyddio'r dangosfwrdd i gael data sy'n nodi'n fanwl ble mae siaradwyr Cymraeg yn byw a gweld sut mae patrymau iaith wedi newid dros amser, yn ogystal â dysgu mwy am fywydau'r siaradwyr hyn. Mae Swyddfa'r Comisiynydd bellach wedi cyhoeddi'r dangosfwrdd:

[Who speaks Welsh yng Nghymru? \(welshlanguagecomisiwner.Cymru\)](#)

[Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru? \(comisiynyddygymraeg.cymru\)](#)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Hayley Randall](#).

#### **5. Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol**

Rydym yn darparu cymorth data i'r pedair partneriaeth ranbarthol ledled Cymru. Rydym eisoes yn caffael data am y farchnad lafur ar eu rhan, gan leihau costau trwy gydweithio. Yn ogystal, rydym ni bellach yn ymchwilio i ddefnydd technoleg AI i nodi sectorau sy'n dod i'r amlwg o fewn y farchnad lafur ac wedi adolygu nifer o offerynnau yn y maes er mwyn cefnogi eu gwaith yn well.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â [Sam Sullivan](#).

#### **Gwaith arall i'w nodi**

- Rydym ni bellach wedi cwblhau adnewyddiad ein dangosfyrddau tloidi a chostau byw, gan sicrhau bod y data'n gyfredol.
- Byddwn yn ymgymryd ag adolygiad pellach o'n dangosfwrdd Proffiliau Ward. Ar y rhestr ar gyfer y datblygiad hwn bydd cyflwyniad data cymaradwy am wardiau.

#### **Hyfforddiant a gweminarau**

##### **Canllawiau hyfforddiant**

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau hyfforddiant ar:

- Cyfleu eich pwynt: Cyflwyniad i gyflwyno data'n effeithiol
- Deall eich gwybodaeth: Cyflwyniad i ystadegau cryno
- Clywed gan ddinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal arolygon
- Ymgysylltu â dinasyddion: Cyflwyniad i ddylunio a chynnal grwpiau ffocws

Maent ar gael yn rhad ac am ddim ar ein [gwefan](#).

### Rhaglen gweminarau 'Hysbysu ac Ysbrydoli'

Rydym yn cynnal gweminarau rheolaidd fel rhan o'n rhaglen gweminarau 'hysbysu ac ysbrydoli'. Am ragor o wybodaeth ac i archebu tocynnau, ewch i [TicketSource](#).

Mae recordiadau o'n gweminarau blaenorol ar gael ar ein [gwefan](#).

Rydym bob amser yn chwilio am gynnwys ar gyfer gweminarau. Os ydych chi wedi gweld, gwneud, neu wrthi'n gwneud, rhywbeth diddorol, arloesol ac ysbrydoledig gyda data, byddem ni wrth ein bodd i glywed amdano – yn llwyddiannus neu fel arall. Yn yr un modd, hoffem ni glywed eich awgrymiadau am bynciau data, ystadegau neu ymchwil hoffech chi ddysgu mwy amdanynt yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [Suzanne Draper](#).

### Rhaglen hyfforddiant agored adeiladu capasiti

Hoffech chi ddysgu mwy am gasglu a defnyddio data? Ydych chi'n gweithio gyda data ac eisiau cael mwy o werth ohono? Ydych chi'n meddwl am ehangu'ch sgiliau?

Mae gennym gyfres o gyrsgiau hyfforddiant a fydd yn eich **cyflwyno** i:

- Ystadegau cryno
- Cyflwyno data
- Dylunio a dadansoddi arolygon
- Cynllunio a chyflwyno grwpiau ffocws.

Rydym yn cynnal pob un o'n cyrsiau hyfforddiant ar-lein dwywaith bob chwarter lle gall cydweithwyr o gynghorau lleol gofrestru i fynychu **am ddim**. Gall sefydliadau eraill fynychu am gost o £50 ynghyd â TAW y person, y sesiwn.

I gadw lle ar un o'n sesiynau agored, ewch i [Ticketsource](#).

Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau'n cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig gyda deunyddiau Cymraeg a chyfieithu ar y pryd ar gael yn ôl yr angen. Yn 2024-25, ein bwriad yw cyflwyno pob cwrs yn Gymraeg o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn bwriadu cynnwys ein cyrsiau newydd, *Data101 a Deall a Defnyddio Data Perfformiad*, hefyd fel rhan o'n cynnig hyfforddiant agored yn hwyrach yn y flwyddyn.

Fel arall, am gost fychan, gallwn ddarparu cyrsiau hyfforddiant yn unswydd ar gyfer eich sefydliad chi, ar-lein neu wyneb yn wyneb, ar adeg neu ddyddiad sy'n adas i chi.

Os hoffech chi drafod eich gofynion, cysylltwch â [Roisin Roberts](#).